tafod elái

www.tafelai.net

Mai 2004 | Pris 60c | Rhif 187

BUDDUGOLIAETH YN YR ŴYL

Llongyfarchiadau i Barti'r Efail ar eu buddugoliaeth yng Ngwyl Ban Geltaidd Trá-Li yn swydd Kerry, Yr Iwerddon.

Teithiodd y parti yno ganol Ebrill a dod yn fuddugol yn y gystadleuaeth i leisiau meibion, dan eu harweinydd Menna Thomas. Ond doedd dim cwpan i'w chludo adref i nodi'r fuddugoliaeth. Yn nodweddiadol braidd o drefniadaeth "hamddenol" yr Ŵyl unigryw hon, roedd rhywun heb ei chyrchu yn ôl oddi wrth yr enillwyr blaenorol! Bu'n rhaid setlo ar fenthyca tair o gwpanau Côr Ysgol Glaenaethwy ar gyfer tynnu llun ger neuadd yr Wyl yng Ngwesty'r Brandon.

Fel mae'n digwydd, roedd y corau i gyd eleni wedi teithio o Gymru - ac fel dwedodd rhywun, byddai cwrdd yn y Metropole yn Llandrindod wedi bod yn rhatach, ond heb yr hwyl rhyngwladol o gwrdd a chyd-Geltiaid!

Mae'r parti wedi bod yn ymarfer yn galed yn y Tabernacl, Efail Isaf, ers tro, gan fod hwn yn gyfnod pur brysur yn eu calendar. Yn dynn ar sodlau dychwelyd o Drá-Li roedd eu ymddangosiad yng nghyngerdd y Tri Chôr lleol yn y Tabernacl .

[Yn y llun gwelir Parti'r Efail, gyda'u cwpanau benthyg, gyda Menna a'r telynor Dylan Cernyw, oedd wedi ymuno a hwy i ganu pan fygythiwyd llais un gan grygni!]

EWROP YN NEWID

Daeth 10 gwlad newydd yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd ar y 1af Mai ac mae'n debyg nad oedd 78% o bobl Cymru yn gwybod pa wledydd oedd yn ymuno - Cyprus, Gwerinaeth Czech, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithuania, Malta, Gwlad Pwyl, Gwerinaeth Slovak a Slofenia.

Un effaith o'r ehangu yw fod aelodaeth Cymru yn Senedd Ewrop wedi gostwng o bump i bedwar er fod gan y gwledydd newydd sydd â llai o boblogaeth na Chymru fwy o gynrychiolwyr yn y Senedd.

Mae'n amlwg fod llawer o waith i'w wneud i addysgu pobol am yr Undeb Ewropeaidd cyn yr Etholiadau a fydd yn cymeryd lle mewn 25 gwlad ar ddechrau mis Mehefin ac fod angen sicrhau fod gan Gymru llais clir a phendant yno.

HWB I'CH BUSNES

Dyna oedd nod achlysur a drefnwyd gan Bartneriaeth Adfywio Economi Rhondda Cynon Taf yn y Miwni ar 22 Ebrill. Daeth nifer o gyrff at ei gilydd i roi gwybodaeth am y cymorth a'r cymhorthdaliadau sydd ar gael i fusnesau ac roedd Glesni Roberts o'r Menter Iaith yno i roi gwybodaeth am ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn busnes.

Mae'r Fenter wedi bod yn dosbarthu arwyddion AR AGOR / AR GAU i siopau a busnesau yn yr ardal. Hefyd dosbarthwyd deunyddiau Iaith Gwaith ac yn ôl Glesni Roberts mae'r ymateb wedi bod yn rhagorol.